**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2014**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2015-16**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r gyllideb drafft ar gyfer 2015-16 i'r Aelodau i'w chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

2 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â chyllideb ddrafft 2015-16, y rhagolygon ar gyfer 2016-17 a 2017-18, ac mae'r papurau sydd wedi eu hatodi yn nodi:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A);
(ii) y cyfraniadau am y tro sydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol (Atodiad B);
(iii) y rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad C).

3 Nid yw'r Strategaeth Flynyddol Rheoli'r Trysorlys na'r Dangosyddion Ariannol wedi eu cynnwys oherwydd byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, sef y pwyllgor sydd wedi cael y gorchwyl o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau. Ar sail ei ganfyddiadau, bydd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## CEFNDIR

4 Am y pedair blynedd ddiwethaf mae'r Awdurdod wedi gwneud arbedion o £3 miliwn drwy leihau'r gyllideb net sydd ei hangen 1% ac amsugno unrhyw gynyddiadau megis dyfarniadau cyflog, costau ariannu cyfalaf a chynyddiadau chwyddiant cyffredinol. Er mwyn sicrhau'r arbedion hyn, mae'r Awdurdod wedi cyflawni nifer o opsiynau a ddewiswyd gan yr Aelodau, gan gynnwys newidiadau

i’r system gylchrestru; ailstrwythuro’r rheolwyr; adolygu gofal peiriannau ALP; staffio Diogelwch Tân Cymunedol; a staffio Gwasanaethau Cefnogol. Yn gyffredinol, mae’r gweithlu wedi lleihau 9% dros y cyfnod hwn ond er gwaethaf y gostyngiadau hyn mae’r Awdurdod yn parhau i gyflawni’n llwyddiannus mewn perthynas â’i amcanion.

5 Amcanion Gwella 2014-15 oedd darparu’r targed o 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, a darparu’r gofal tân ac achub gorau yng Ngogledd Cymru drwy ganfod opsiynau amgen i’r System RDS. Mae’r ddogfen yn dangos i’r cyhoedd beth yw’r ymrwymiadau o ran cyflwyno gwasanaethau. Cytunodd yr Aelodau i gyflawni’r amcanion a nodir yn y Cynllun Gwella a chadw lefel gyfredol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru. Er mwyn cadw gwasanaethau ar y lefel gyfredol, cytunwyd y byddai unrhyw gynnydd yn y gyllideb a ddarperir yn cael ei danategu drwy ddefnyddio cronfeydd unigol. Golygai hyn fod yr Awdurdod yn gallu gosod cyllideb wedi ei rhewi ar gyfer 2014-15.

**CYNLLUNIO CYLLIDEB 2015-16**

6 Ar gyfer 2015-16 cytunodd yr Aelodau y dylai Gweithgor y Cynllun Gwella ystyried y balans rhwng y pwysau ar y gyllideb, darparu gwasanaethau, a’r perygl i’r cyhoedd. Daeth y Gweithgor i’r casgliad mai dim ond drwy ostwng lefel y gwasanaethau y gellir sicrhau arbedion mawr.

7 Yr Amcanion Gwella drafft a gymeradwywyd ar gyfer 2015-16 a’r blynyddoedd wedi hynny oedd cadw lefel gyfredol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru, ac y dylai unrhyw gynnydd yn y gyllideb fod yn ddim mwy na £1 yn ychwanegol y pen o’r boblogaeth yng Ngogledd Cymru – sef swm sy’n cyfateb i £699k ar sail amcangyfrifon poblogaeth 2015.

8 Ar 8fed Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y setliad llywodraeth leol am y tro ar gyfer 2015-16. I’r Awdurdodau Cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, 3.7% oedd y **gostyngiad** yn y cyllid.

9 Cafodd y Panel Gweithredol adroddiad ar y gyllideb ar 27ain Hydref 2014, ac roedd yn nodi'r costau o gadw'r un lefel o wasanaethau dros y 5 mlynedd nesaf; sef bod angen £3.3 miliwn yn ychwanegol yn y gyllideb. Os amsugnir y cynnydd, ni ellid cadw lefel gyfredol y gwasanaethau. Er mwyn cael yr arbedion, byddai angen toriadau sy'n cyfateb i 25% o'r llu gweithredol a dim ond drwy gau gorsafoedd, cael gwared ar beiriannau a lleihau'r gwaith diogelwch cymunedol y gellid eu cael. Cytunodd yr Aelodau i argymell i'r Awdurdod Tân gadw lefel gyfredol y gwasanaethau ac, os oes angen, cynyddu'r gyllideb swm sy'n cyfateb i ddim mwy na £1 y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

10 Fodd bynnag, yng ngoleuni'r setliadau ariannol a osodwyd ar yr Awdurdodau Cyfansoddol, gofynnodd yr Aelodau i rai opsiynau o ran arbedion, na fyddai'n golygu cael gwared ar injans tân neu gau gorsafoedd, gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân er mwyn gwrthbwyso'r £750k o bwysau anochel ar gyllideb 2015-16.

11 Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ar 2il Rhagfyr 2014, cafodd yr Aelodau wybod beth yw'r opsiynau sydd ar gael iddynt o ran yr arbedion. Yn gyntaf, cafodd yr Aelodau wybod bod y £750k o bwysau anochel ar y gyllideb wedi gostwng i £628k oherwydd fod amseriad gwaith adeiladu yn Wrecsam wedi cael effaith ar y costau cyllido cyfalaf (£87k) a chau Atal Tân, sef arbediad yn y cyfraniad gwasanaethau (£35k).

12 Dyma'r opsiynau a gyflwynwyd o ran yr arbedion:-

| **Arbedion Posibl** | **Swm** |
|---|---|
| Rhoi'r gorau i Wasanaeth Anstatudol – Achub â Rhaffau | £8k |
| Rhoi'r gorau i Wasanaeth Anstatudol – Achub Anifeiliaid Mawr | £8k |
| Rhoi'r gorau i Wasanaeth Anstatudol – Achub o Ddŵr | £75k |
| Mynd at Lai o Larymau Tân Awtomatig | £25k |
| Cael rhagor o Ostyngiad yn nifer Swyddi Rheolwyr Gweithredol | £250k |

13 Cadarnhaodd yr Aelodau y dylid rhoi'r holl opsiynau ar waith yn 2015-16 ac eithrio 'Achub o Ddŵr' oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â thynnu ymaith y gwasanaeth uchel ei broffil hwn, a bod adroddiad ar y Gwasanaeth Achub o Ddŵr yn cael ei ystyried yn 2015-16. Mae'r cynnydd yn y gyllideb, yr argymhellir ei gymeradwyo ar gyfer 2015-16, wedi cael ei gytuno ar £337k, sy'n cyfateb i lai na 50c y pen o'r boblogaeth.

## GWIRIONEDDOL – 2013-14

**14** Mae gwariant gwirioneddol 2013-14 yn cael ei gynnwys yng ngholofn gyntaf yr Atodiad er mwyn ei gwneud yn haws cymharu gyda'r gyllideb gyfredol a'r gyllideb a gynigir. Dan gostau gweithwyr, mae'r llu wedi ei ailstrwythuro ar gyfer 2014-15 i gynnwys y Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn Gwledig. Yn y Cynllun Gwella ar gyfer 2014-15 un o'r amcanion a restrir oedd 'canfod opsiynau amgen i'r System RDS', mae'r swyddi newydd wedi cael eu sefydlu i ddarparu gofal tân ar orsafoedd RDS ac maent yn cael eu defnyddio hefyd i ddarparu gofal ar orsafoedd amser cyflawn pan fo angen. Mae cyllideb y swyddi newydd wedi cael ei throsglwyddo o'r gyllideb RDS felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r Awdurdod. Roedd gwariant gwirioneddol ar Brif Swyddogion yn llai na chyllideb y flwyddyn ddilynol oherwydd bod deiliad un o'r swyddi wedi ymddeol ac nid oedd y swydd wedi ei llenwi ar y pryd. Roedd y gwariant ar Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn llai yn 2013-14 gan fod nifer o swyddi gweigion heb gael eu llenwi y pryd hwnnw. Roedd gwariant ar gostau cyfrifiaduron yn llai yn 2013-14 na'r cyllidebau cyfredol oherwydd bod rhai contractau wedi cael eu hailnegodi ac nad oedd effaith lawn costau Firelink wedi dod tan y flwyddyn ganlynol. Roedd gwariant arall o'i gymharu â chyllidebau'r dyfodol yn eithaf sefydlog, a phan fo cynyddiadau mae hyn yn adlewyrchu newidiadau i bwysau chwyddiant.

## CYLLIDEB 2015-16

15 I osod cyllideb fantoledig, y man cychwyn yw cynnwys yr ymrwymiadau hysbys megis y cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen gyfalaf a chynyddiadau anochel mewn chwyddiant.

16 Am nifer o flynyddoedd roedd cyflogau yn y sector cyhoeddus wedi eu rhewi. Nid dyma'r sefyllfa erbyn hyn, ac mae'r dyfarniadau cyflog diweddar wedi cyfateb i 1% y flwyddyn. Er mwyn ymorol am ddyfarniadau cyflog posibl yn 2015-16, mae 1% wedi ei roi yn y gyllideb ar gyfer yr holl staff cyflogedig.

17 Mae rhai o linellau'r gyllideb wedi cynyddu pan fo'n hysbys y bydd yna gynnydd chwyddiannol e.e. costau ynni, tanwydd, ardrethi annomestig cenedlaethol a chytundebau lefel gwasanaeth. Mae rhai o'r llinellau eraill wedi cynyddu pan fu cynnydd mewn gwasanaethau, e.e. costau cefnogi Firelink a newid contract rhenti llinell. Mae costau cyfrifiaduron wedi cynyddu oherwydd bod rhai contractau wedi cael eu hailnegodi. Mae rhai llinellau eraill yn y gyllideb wedi cael eu cadw ar eu lefel bresennol, a bydd rhaid cwrdd ag unrhyw gynyddiadau chwyddiannol drwy arbedion neu gronfeydd wrth gefn, ynghyd ag unrhyw gynyddiadau yn y lefelau gweithgarwch.

18 Mae'r cynnydd yn y taliadau cyllido cyfalaf wedi eu cadw cyn lleied â phosibl oherwydd bydd rhywfaint o wariant cyfalaf yn cael ei ariannu o'r Gronfa Gyfalaf er mwyn lleihau costau refeniw. Mae pob prydles sydd ar ôl, ac sy'n ymwneud ag asedau gweithredol, wedi cael eu prynu allan felly nid oes gofyniad mwyach i gadw cyllideb brydlesu.

19 Fel y nodir ym mharagraff 13, £337k yw cynnydd y gyllideb ar ôl gweithredu'r arbedion y cytunwyd arnynt.

20 Yn 2014-15, er mwyn gosod cyllideb wedi ei rhewi, cafodd y gyllideb ei thanategu drwy ddefnyddio £406k mewn cronfeydd wrth gefn. Mae sefyllfa'r alldro ar gyfer 2014-15 yn amcangyfrif ar hyn o bryd mai dim ond £20k fydd yn cael ei ddefnyddio oherwydd tanwariannau ar draws nifer o benawdau'r gyllideb. £1.812 miliwn yw balans y Gronfa Gyffredinol ar hyn o bryd, felly mae'n bosibl y bydd yr Aelodau'n ystyried yr opsiwn o osod cyllideb wedi ei rhewi eto ar gyfer 2015-16 a'i thanategu drwy gyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r Trysorydd yn cynghori y dylid bod yn hynod ofalus wrth ystyried defnyddio cronfeydd i danategu'r gyllideb, gan mai'r effaith yw rhoi'r swm hwnnw yn bwysau ar y gyllideb yn y flwyddyn ddilynol. Bydd angen i'r Aelodau gadw mewn cof ei bod yn bosibl y bydd angen y balansau eto yn 2014-15 os bydd lefel y gweithgarwch/digwyddiadau'n cynyddu rhwng nawr a 31 Mawrth 2015.

21 Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno nodi bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cychwyn ymchwilio i'r cronfeydd sydd gan lywodraeth leol, ac mae wedi dweud y gellid ystyried eu defnyddio i wrthbwyso gostyngiadau yn y cyllid. Wrth ystyried yr opsiwn o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, bydd angen i'r Aelodau gadw mewn cof fod yna risg yn gysylltiedig â defnyddio cyllid unigol oherwydd ni ellid ei ddefnyddio eto ac mae'n ychwanegu at yr angen

i ganfod arbedion yn y flwyddyn neu'r blynyddoedd dilynol. Nid ystyrid mai doeth yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn i lai na 3% o'r gwariant net (£953k), a tharged sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol yw 5% o'r gwriant refeniw net (£1,588k). Os bydd yr Aelodau'n dymuno cymeradwyo'r opsiwn o ddefnyddio cronfeydd ar gyfer 2015-16, a hynny ar sail y gyllideb a gynigir yn yr adroddiad hwn fel y bo'r gyllideb yn cael ei 'rhewi' ar arian parod digyfnewid am bedwaredd flwyddyn, bydd angen £337k. Bydd hyn yn gadael £1,455k yn y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2016 – 4.53% o'r gwariant refeniw net gyda 'phwysau net' o 1.05% o'r herwydd ar gyfer 2016-17.

22 Atgoffir yr Aelodau fod gan yr Awdurdod rai cronfeydd wedi eu clustnodi i ariannu prosiectau/cynlluniau penodol. Cânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried pa mor ddigonol ydynt i'r diben y crëwyd hwy. Nid ystyrid eu bod o fewn defnydd cyffredinol i danategu cyllideb 2015-16. Byddant yn cael eu hadolygu fel rhan o'r alldro gwariant refeniw ar gyfer 2014-15.

23 Yn olaf mae dwy ddarpariaeth hefyd yn cael ei dal gan yr Awdurdod, sef – Pensiynau Diffoddwyr Tân a Chyflog Cyfartal – ac ystyrir nad yw'r rheini ar gael i ddiben yr agwedd hon ar yr adroddiad.

**CYLLIDEB 2016-17 a 2017-18**

24 Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gynllunio, mae rhagolygon y gyllideb ar gyfer 2016-17 a 2017-18 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

25 Mae ymrwymiadau hysbys wedi eu ffactorio i mewn i'r cyllidebau ar gyfer y 2 flwyddyn, ac maent yn cynnwys costau refeniw uwch y cyfalaf ar sail y rhaglen gyfalaf sydd yn atodiad C. Mae dyfarniad cyflog o 1% wedi ei ffactorio i mewn i'r gyllideb am y 2 flwyddyn hyn. Mae effaith yr ymrwymiadau hysbys wedi cynyddu'r gyllideb 3.87% yn 2016-17 a 1.4% yn 2017-18. Mae'r cynnydd mawr yn 2016-17 o ganlyniad i'r dyfarniadau cyflog a'r cynnydd yn y ffioedd cyfalaf oherwydd lefel y gwariant cyfalaf yn 2015-16.

26 Mae'r cyllidebau ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn adlewyrchu cost cadw'r lefel gyfredol o wasanaethau.

## CYFRANIADAU

27 Mae Atodiad B yn nodi’r cyfraniadau amcanol gan yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2015-16. Mae’r tabl cyntaf yn dangos y cynnydd yn y cyfraniadau os caiff y gyllideb ei chynyddu £337k. Mae’r ail dabl yn dangos y cyfraniadau os rhewir y gyllideb.

28 Efallai y bydd yr Aelodau’n dymuno nodi bod amcangyfrifon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cael eu defnyddio i ddyrannu’r cyfraniad a’r Grant Cefnogi Refeniw, felly bydd yr awdurdodau sydd â newid mawr yn eu hamcangyfrifon poblogaeth (+/-) yn gweld cynnydd neu ostyngiad mwy a chyfatebol yn eu cyfraniadau, a bydd y newid hefyd wedi eu adlewyrchu yn eu setliad Grant Cefnogi Refeniw.

## Y RHAGLEN GYFALAF

29 Nodir y gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2015-16 yn Atodiad C, ac mae’n £10.8 miliwn. O’r ffigwr hwn, mae £7.4 miliwn ar gyfer cynlluniau newydd neu gynlluniau sy’n parhau, ac mae £3.4 miliwn ar gyfer cynlluniau sydd wedi eu cario drosodd o flynyddoedd blaenorol, megis cynllun Wrecsam a gymeradwywyd yn 2009/10 ond sydd, oherwydd problemau gyda’r safle, wedi oedi sawl gwaith. Mae prynu peiriannau newydd a cherbydau ategol yn beth parhaus, gan ddilyn y rhaglen cerbydau newydd. Yn 2014-15, yr alldro a amcangyfrifir ar gyfer gwariant cyfalaf yw £8 miliwn, a chynigir ariannu hyn drwy fenthyciadau a chyfraniad o’r Gronfa Gyffredinol. Fel y crybwyllwyd eisoes, bydd ariannu’r rhaglen gyfalaf o’r Gronfa Gyfalaf yn lleihau costau dyledion yn y dyfodol ac sy’n deillio o’r rhaglen gyfredol a bydd yn gymorth i liniaru codiadau yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

## ARGYMHELLION

30 Argymhellir:

(i) Bod yr Aelodau’n cymeradwyo cyllideb ddrafft 2015-16;

(ii) Bod yr Aelodau’n cadarnhau’r strategaeth i’w dilyn er mwyn cael cyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16;

(iii) Bod yr Aelodau’n nodi sefyllfa’r gyllideb ar gyfer 2016-17 a 2017-18;

(iv) Bod yr awdurdodau cyfansoddol yn cael gwybod am y cyfraniadau amcanol sydd eu hangen ar gyfer 2015-16;

(v) Bod y gyllideb gyfalaf ddrafft a'r dulliau cysylltiedig o ariannu ar gyfer 2015-16 yn cael eu cymeradwyo;

(vi) Os daw unrhyw arbedion i'r amlwg cyn 15 Chwefror 2015, bod y pwerau ar gyfer addasu lefel y gyllideb yn cael eu dirprwyo i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.